Dyddiad/Date: 23 Medi 2026

Annwyl

**ATISN 27500 – Mansion House, Caerdydd**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 11 Medi 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

**Copïau o'r holl ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd yn trafod Mansion House, Richmond Road, Caerdydd rhwng 7 Mai a 9 Medi 2026.**

**Ein hymateb**

Yn dilyn chwiliad o'n cofnodion papur ac electronig, rwyf wedi canfod nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani. Cynhaliwyd y chwiliadau ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich cais. Os gallwch ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai ein cynorthwyo i adnabod y cofnodion yr ydych yn eu ceisio, byddem yn fodlon ystyried a ellir cynnal chwiliadau pellach. Anfonwch unrhyw wybodaeth ychwanegol drwy e-bost at rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru.
Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir